Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

Dogfen Ymgynghori – Crynodeb o Ymatebion

# Llunio Dyfodol Cymru:

## Defnyddio Cerrig Milltir Cenedlaethol i fesur cynnydd ein Cenedl (cam dau)

Cynigion ar gyfer gosod yr ail gyfres o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG46562 ISBN digidol: 978-1-80535-171-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn oedd ceisio barn ar osod ail don y cerrig milltir cenedlaethol i Gymru a fydd yn cynorthwyo Gweinidogion i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:


Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: lluniodyfodolcymru@llyw.cymru


## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Llunio Dyfodol Cymru

# Tabl Cynnwys


**Rhagarweiniad** .......... 4

**Cyfnod ymgynghori** .......... 4

**Manylion yr ymatebion** .......... 4

**Y Camau Nesaf** .......... 5

Adran 1 – Cerrig Milltir Cenedlaethol .......... 6

# Rhagarweiniad

Mae'r saith nod llesiant i Gymru sydd wedi’u rhestru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015 (y Ddeddf) yn rhoi disgrifiad o Gymru sy'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfiawn. Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at y nodau hyn, a sicrhau bod fframwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn parhau i ysgogi prosesau penderfynu gwell ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys tri mesur sy'n helpu i ddarparu dealltwriaeth gyffredin o'n gwlad. Mae dangosyddion cenedlaethol sy'n mesur cynnydd, y cerrig milltir cenedlaethol sy'n nodi graddfa’r newid a pha mor gyflym y mae'n digwydd, ac adroddiad tueddiadau'r dyfodol sy'n nodi'r ffactorau a all effeithio ar gynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, gyda’i gilydd yn helpu i lunio dyfodol Cymru.

Diben yr ymgynghoriad hwn oedd ceisio barn ar osod ail don y cerrig milltir cenedlaethol i Gymru a fydd yn cynorthwyo Gweinidogion i asesu cynnydd tuag at gyflawni’r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Cyfnod ymgynghori

Yn unol â gofynion y Ddeddf, aeth Llywodraeth Cymru ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â'r cyrff cyhoeddus penodedig, sef Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a rhanddeiliaid ehangach.

*Ymgynghoriad cyhoeddus*

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 21 Mehefin 2022 a 12 Medi 2022. Anfonwyd y papur ymgynghori yn electronig at ystod eang o randdeiliaid ac fe'i darparwyd ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd. Anfonodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol lythyr ymgynghori at Brif Weithredwyr Cyrff Cyhoeddus (neu swyddogion cyfatebol) yn gwahodd eu safbwyntiau ynghylch y gwerthoedd arfaethedig ar gyfer y cerrig milltir cenedlaethol.

# Manylion yr ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 89 o ymatebion, a oedd yn cynnwys:

- 34 o ymatebion drwy e-bost;
- 55 o ymatebion a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ar-lein;

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Wavehill Ltd i gynnal dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion a gafwyd. Mae eu hadroddiad cynhwysfawr yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Mae Tabl 1 yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebwyr. Neilltuwyd categori i'r ymatebwyr fel rhan o broses ddadansoddi'r ymgynghoriad. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau sydd wedi ymateb ar gael fel rhan o'r adroddiad dadansoddi ar gyfer yr ymgynghoriad annibynnol.

**Tabl 1 – Proffil ymatebwyr yr ymgynghoriad**

| Sector | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| **Y Sector Cyhoeddus** | **21** |
| *Awdurdod Lleol* | *6* |
| *Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru* | *0* |
| *Byrddau Iechyd* | *3* |
| *Sector cyhoeddus arall* | *7* |
| *Bwrdd partneriaeth* | *0* |
| **Y Trydydd Sector** | **15** |
| *Elusen neu sefydliad nid er elw* | *8* |
| *Sefydliad aelodaeth* | *7* |
| **Eraill** | **53** |
| *Unigolyn* | *33* |
| *Penodiad cyhoeddus* | *0* |
| *Addysg Uwch* | *0* |
| *Undeb Llafur* | *0* |
| *Swyddog etholedig* | *0* |
| *Plaid wleidyddol* | *0* |
| *Ddim yn gwybod* | *20* |
| **Cyfanswm** | **89** |

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac i'r bobl a gymerodd ran yn y gweminarau, cyfarfodydd a digwyddiadau am eu cyfraniadau.

## Y Camau Nesaf

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad:

- Gosodwyd wyth o gerrig milltir cenedlaethol newydd yn y Senedd ym mis Tachwedd 2022
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo a chefnogi’r gwaith o wreiddio'r gyfres lawn o gerrig milltir cenedlaethol yn Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus.

## Ffurf ymateb y Llywodraeth

Mae'r ddogfen hon yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, yn seiliedig ar y dadansoddiad annibynnol a gynhaliwyd gan Wavehill Ltd ac adborth arall. Nid ymateb i bob awgrym unigol a wnaed yw diben y ddogfen hon.

## Adran 1 – Cerrig Milltir Cenedlaethol

Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ynghylch gwerthoedd arfaethedig ar gyfer wyth carreg filltir genedlaethol. Mae'r adran hon yn crynhoi ymateb Llywodraeth Cymru i'r sylwadau a gafwyd.

Roeddem yn falch iawn o weld bod yr adroddiad dadansoddi annibynnol yn dangos yn glir bod 'cefnogaeth eang i'r holl werthoedd arfaethedig ar gyfer y cerrig milltir cenedlaethol yn yr ymgynghoriad'.

Yn gyffredinol, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r holl gerrig milltir cenedlaethol gan yr ymatebwyr. Mae hyn yn awgrymu bod cytundeb cyffredinol o ran pwysigrwydd y materion a amlinellwyd yn y cynigion, a'r blaenoriaethau y maent yn ceisio ymdrin â nhw.

### Disgwyliad oes iach

Ar y cyfan, roedd cefnogaeth gref i ffocws a bwriad y garreg filltir genedlaethol sy'n ymwneud â disgwyliad oes iach, gydag 83 y cant o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cymeradwyo'r dull gweithredu.

Tynnodd rai ymatebion sylw at natur gymhleth anghydraddoldebau iechyd. Roedd yr ymatebion hyn yn teimlo bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gofyn am ffocws ehangach, gan gynnwys ar anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd sy'n gallu siapio a phenderfynu ar ganlyniadau iechyd a lles.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar anghydraddoldeb ac mae'r Rhaglen Lywodraethu sydd wedi'i diweddaru yn cynnwys amcan llesiant i geisio dileu anghydraddoldeb o bob math.

### Ymddygiadau Ffordd Iach o Fyw

Bwriad y garreg filltir genedlaethol hon oedd ategu'r garreg filltir genedlaethol ton un gan ganolbwyntio ar ymddygiadau iach ymhlith plant yng Nghymru. Gyda'i gilydd, bydd y cerrig milltir cenedlaethol hyn yn gwasanaethu pwrpas sylfaenol y Ddeddf, h.y. diogelu iechyd a llesiant pobl Cymru. Trwy hyrwyddo mabwysiadu dau neu fwy o ymddygiadau iach o fyw, rhagwelir y bydd hyn yn sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu byw bywydau hirach, iachach a hapusach.

Ar y cyfan, roedd cefnogaeth ysgubol i gynnwys y garreg filltir hon, gyda 78 y cant o'r ymatebwyr yn lleisio eu cefnogaeth.

Awgrymodd grwpiau bach o ymatebwyr y dylai'r garreg filltir genedlaethol fod yn fwy uchelgeisiol. Ymhlith yr awgrymiadau roedd cynyddu nifer yr ymddygiadau ffordd iach o fyw y mae disgwyl i oedolion eu cael, yn ogystal â byrhau'r amserlen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y cwmpas cymharol sydd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid i annog/cymell nifer uwch o ymddygiadau ffordd iach o fyw

ymhlith oedolion o'i gymharu â phlant. Rydym o'r farn bod y cwmpas a'r cyfleoedd i ddylanwadu ar y nifer o ymddygiadau ffordd iach o fyw i oedolion yn is nag i blant ac o ganlyniad, bydd y garreg filltir genedlaethol yn ceisio cynyddu canran yr oedolion sydd ag ymddygiadau ffordd iach o fyw i fwy na 97% erbyn 2050.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut mae'r gwaith hwn yn datblygu ac mae wedi ymrwymo i'n gweledigaeth a amlinellir yn y strategaeth Cymru Iachach, sef y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach, a gwyddom y gall sicrhau bod gan bobl ddau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw gyfrannu at wireddu hyn.

### Lles Meddyliol

Cafwyd cefnogaeth eang o blaid y garreg filltir a awgrymwyd ar gyfer lles meddyliol a dywedodd 77% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r dull arfaethedig.

Roedd llawer o’r ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi lles meddyliol, gydag un ar ddeg o’r ymatebwyr yn nodi ystod o bryderon ynghylch lles meddyliol gwael. Teimlwyd bod angen rhoi ffocws a sylw sylweddol i bwysigrwydd lles meddyliol ac, felly hefyd, targedau mwy penodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ffactorau allanol a allai effeithio ar lesiant yn dylanwadu ar y garreg filltir genedlaethol hon (e.e. y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw). Gyda hyn mewn golwg ac yn unol â'n hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd nid oes gan y garreg filltir arfaethedig sgôr lles meddyliol cymedrig penodol i anelu ato. Yn hytrach, yr uchelgais yw i ddileu'r bwlch mewn lles meddyliol cymedrig rhwng cwintelau mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru, sydd oddeutu tri phwynt ar hyn o bryd, yn ogystal â gwella sgôr lles meddyliol cymedrig y boblogaeth gyfan.

### Incwm Gwario Gros Aelwydydd

Unwaith eto, cafwyd cefnogaeth aruthrol i fwriad a ffocws y garreg filltir genedlaethol. Roedd cyfanswm o 76 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno gyda'r dull cyffredinol.

Soniodd rai ymatebwyr y byddai system dreth a budd-dal decach yn helpu Llywodraeth Cymru i gefnogi’r cynnydd tuag at y garreg filltir genedlaethol hon. Mae'r ymatebwyr yn galw am fwy o gefnogaeth i'r rhai sydd â'r Incwm Gwario Gros Aelwydydd isaf ar hyn o bryd ac a fydd, yn eu tyb nhw, yn elwa fwyaf o'r gefnogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio dylanwadu ar hawliau cyflogaeth, dyletswyddau ac amddiffyniadau a fydd yn cael effaith ar weithwyr a gweithleoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod nifer o'r dylanwadau pwysig ar Incwm Gwario Gros Aelwydydd megis trethi, budd-daliadau, darpariaeth pensiwn a'r mesurau i reoli chwyddiant megis cyfraddau llog yn parhau i fod y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

## Tlodi Incwm

Roedd cefnogaeth gref i fwriad a ffocws y garreg filltir genedlaethol gydag 82 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno â'r dull gweithredu.

Fel gyda'r garreg filltir uchod, tynnodd rai ymatebwyr sylw at gyfyngiadau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael yn llawn â rhai o'r achosion sylfaenol o dlodi incwm yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar lefelau trethi a budd-daliadau, yn ogystal â'r rôl bwysig sydd gan y sector preifat wrth benderfynu ar gyflogau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oes ganddi gyfrifoldeb am y prif ysgogiadau polisi a chyllidol a fyddai'n ein galluogi i gyflawni'r newid sydd ei angen i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn lefelau tlodi yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dull amgen uchelgeisiol ond realistig, lle rydym yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny o dlodi y gall Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ar draws Cymru ddylanwadu arnynt yn uniongyrchol ac y teimlwn y byddai'n fwy cyraeddadwy. Bydd gwaith yn parhau i fireinio carreg filltir a fydd yn amlinellu uchelgais glir i leihau'r bwlch tlodi yn y tymor canolig, rhwng pobl yng Nghymru sydd â nodweddion allweddol a gwarchodedig penodol (sy'n golygu eu bod yn fwyaf tebygol o fod mewn tlodi) a phobl heb y nodweddion hynny. Bydd y garreg filltir hefyd yn ymrwymo i osod targed gwerth tymor hwy penodol ar gyfer lleihau'r bwlch hwnnw, yn seiliedig ar y data diweddaraf ac yn cyd-fynd â'n dull o fynd i'r afael â thlodi yn draws-lywodraethol ac ar draws cyrff cyhoeddus.

## Pobl sy'n gwirfoddoli

Roedd barn am y garreg filltir genedlaethol hon hefyd yn gadarnhaol, gyda 63 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.

Awgrymodd pedwar ymatebwr y byddai mesur yn ymwneud ag oriau gwirfoddoli yn fwy priodol, a bod gwirfoddoli yn ddewis personol na ddylai unigolion deimlo rheidrwydd i'w wneud.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod defnyddio "nifer o oriau" fel metrig yn arwain at lawer o fanteision o ran llunio polisïau (yn enwedig wrth gymharu data ar gyfer gwahanol grwpiau ac oherwydd y manteision y mae hefyd yn ei gynnig fel mesur procsi o'r budd cymdeithasol ac amgylcheddol a gyflwynir, h.y. gwrthrych gweithredu gwirfoddol).

Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol nad yw'r casgliad data presennol yn ymwneud ag oriau gwirfoddoli yn ddigonol ar gyfer ein hanghenion ac felly byddai perygl o beidio â chipio cryn dipyn o weithgarwch gwirfoddoli. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gosod carreg filltir sy'n seiliedig ar ddata presennol a phroses casglu data cadarn (e.e. Data'r Arolwg Cenedlaethol) gan roi cyfrif am effaith

anghysonderau un flwyddyn (e.e. taro targed yn ddamweiniol oherwydd digwyddiad brys).

O ganlyniad, rydym yn teimlo mai defnyddio ffigwr "canran y bobl sy'n gwirfoddoli" yw'r dull mwyaf priodol ar hyn o bryd o osod ein huchelgais a'n targed hirdymor.

## Perfformiad Ynni Cartref

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig, gyda 75 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn wedi ymateb yn gadarnhaol.

Roedd tlodi tanwydd yn bryder allweddol i ddeuddeg o’r ymatebwyr. Roedd sicrhau bod perfformiad ynni digonol ym mhob cartref felly o bwys mawr. Roedd pwysigrwydd y materion hyn yn gwarantu gweithredu mwy brys i rai gyda chwech o’r ymatebwyr yn awgrymu bod defnyddio’r flwyddyn 2050 fel targed yn amserlen rhy hir.

Er mwyn cefnogi pobl Cymru i reoli costau gwresogi eu cartrefi, a chyflawni ymrwymiad cyfreithiol Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau sero net, mae'n bwysig ein bod ni'n newid ac yn gwella'r ffordd y mae pobl yn defnyddio ynni yn eu cartrefi. Mae'r garreg filltir hon yn cydbwyso'r angen i wneud newidiadau i gartrefi Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng Newid yn yr Hinsawdd, gyda’r dyhead i amddiffyn trigolion Cymru rhag cynnydd mawr yng nghostau eu biliau ynni. Bydd y rhaglenni gwaith sydd eisoes wedi’u sefydlu yn cefnogi cyflawni'r garreg filltir hon, ac yn cydnabod, mewn maes sy'n newid mor gyflym, lle mae technolegau a ffyrdd newydd o ddarparu ynni yn dod i'r amlwg, na fyddai'n briodol gwneud ymrwymiadau tymor hwy ar lwybrau penodol i gyflawni.

## Bioamrywiaeth

Fel yn achos y cerrig milltir cenedlaethol eraill, roedd cefnogaeth eang i hyn, gyda 79 y cant yn cytuno â'r targed arfaethedig.

Yn debyg i rai cerrig milltir cenedlaethol eraill, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gellid gweithredu amserlen fyrrach. Roedd hyn oherwydd materion posibl fel atal colli bioamrywiaeth rhag mynd yn anoddach a drutach i'w cywiro dros amser, yn ogystal ag effaith negyddol posib yr atebion i faterion eraill.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gweinidog Cymru yn amlinellu ein huchelgais i 'wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, am ei werth cynhenid, ac i sicrhau buddion parhaol i gymdeithas’. Bydd ymrwymiad i sicrhau gwelliant yn y statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 yn sicrhau bod y garreg filltir hon yn cyd-fynd â chyfnod adrodd fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang y Cenhedloedd Unedig yn 2030; a bydd yn bwynt gwirio pwysig i olrhain y trywydd i adferiad erbyn 2050.